

Cyngor Bwrdeistref Sirol



<https://www.bridgend.gov.uk/>

## **Addysg Gyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr**

Nod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) yw sicrhau bod addysg gyfrwng Cymraeg ar gael i bob plentyn.

Os oes arnoch chi eisiau cael gwybod mwy am eich dewisiadau ar gyfer addysg gyfrwng Cymraeg eich plentyn pam na rowch chi gynnig ar rai o'r canlynol:

- Ffoniwch eich ysgol leol i drefnu ymweliad a chael sgwrs gyda'r pennaeth;
- Ewch i rai gweithgareddau cylch chwarae cyn-ysgol Cymraeg yn lleol ar gyfer rhieni newydd megis Cylch Meithrin neu Cylch Ti a Fi;
- Siaradwch â rhieni eraill a chyfeillion sydd wedi cael profiad o addysg gyfrwng Cymraeg;
- Chwiliwch am 'Magu Plant yn ddwyieithog' ar-lein;
- Cysylltwch â Thîm Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn [Childcareteam@bridgend.gov.uk](mailto:Childcareteam@bridgend.gov.uk) neu 01656 642649 i drafod eich dewisiadau.

Mae hefyd nifer o Gylchoedd Meithrin cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr sy'n cael eu cefnogi gan gymdeithas o'r enw Mudiad Meithrin.

[Gallwch weld mwy o wybodaeth am y Mudiad Meithrin yma.](#)

Ceir mwy o fanylion am ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg yn y cyfeiriadur ar ddiwedd y llyfryn hwn.

Mae yna hefyd lyfryn Pen-y-bont ar Ogwr a all eich cynorthwyo i benderfynu: ['Pam Dewis Cymraeg?'](#)

## **Ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr**

Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr bedair ysgol gynradd gyfrwng Cymraeg (3 i 11 oed) ac un ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg (11 i 19 oed).

Cydnabyddir gan lawer fod mynychu ysgol gynradd sy'n cynnig addysg gyfrwng Cymraeg yn ffordd ardderchog o alluogi plant i ddod yn rhugl yn y Gymraeg.

Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, addysgir plant drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig (hyd at 7 oed). Yr enw ar hyn yw trochi. Mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn brif gyfrwng addysgu yng nghyfnod allweddol 2 (saith i 11 oed). Cyflwynir Saesneg ym Mlwyddyn 3.

Gall disgyblion sy'n derbyn eu haddysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg barhau i dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol uwchradd.

Gall rhieni/gofalwyr fynegi dymuniad i anfon eu plentyn i ysgol Gymraeg er nad yw hyn yn golygu y bydd lle yn ysgol y dewis cyntaf wedi'i warantu.

Nid oes rhaid i chi fod yn siarad Cymraeg gartref i ddewis addysg gyfrwng Cymraeg i'ch plentyn.

Yn y mwyafrif o achosion, bydd rhieni/gofalwyr yn dewis eu hysgol gyfrwng Cymraeg agosaf.


Nid oes 'dalgylchoedd' ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Gall rhiant/gofalwr wneud cais am le i'w plentyn yn unrhyw ysgol gyfrwng Cymraeg yn y sir.

Fodd bynnag, os bydd rhiant/gofalwr yn dewis gwneud cais am le mewn ysgol gyfrwng Cymraeg, nad yw yn ysgol gyfrwng Cymraeg agosaf i gyfeiriad cartref y plentyn, a bod y cais hwnnw'n llwyddiannus, ni fydd hawl awtomatig i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol y gofynnwyd amdani.

Dim ond pan fo prif gyfeiriad cartref y plentyn yn fwy na dwy filltir o'r ysgol gynradd gyfrwng Cymraeg agosaf neu dair milltir o'r unig ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg y bydd y plentyn yn gymwys ar gyfer cludiant ysgol i blant sy'n derbyn addysg gyfrwng Cymraeg.

**Ysgolion Cymraeg Pen-y-bont ar Ogwr**  
**Bridgend Welsh-medium schools**

- Ysgol uwchradd**  
3 milltir o bellter cerdded o'r ysgol
- Ysgol gynradd**  
2 milltir o bellter cerdded o'r ysgol
- Secondary school**  
3 mile walking distance from school
- Primary school**  
2 mile walking distance from school



**Ysgolion Cymraeg Pen-y-bont ar Ogwr**

Ysgol uwchradd tair milltir o bellter cerdded o'r ysgol, Ysgol gynradd 2 filltir o bellter cerdded o'r ysgol.

## Ysgolion Cyfrwng Cymraeg Pen-y-bont ar Ogwr

### Ysgol Gymraeg Bro Ogwr

Ysgol Gymraeg Bro Ogwr  
Ffordd y Dywysoges  
Bracla  
Pen-y-Bont ar Ogwr  
CF31 2LN

Mae dewis yr ysgol iawn ar gyfer eich plentyn yn hollbwysig. Credwn fod ar rieni eisiau'r addysg orau i'w plant gan sicrhau eu bod yn teimlo'n hapus, yn saff ac yn ddiogel. Yn [Ysgol Gymraeg Bro Ogwr](#) credwn y gallwn gynnig yr holl bethau hyn. Rydym yn ymfalchïo yn yr addysg eang, gytbwys a chynhwysol yr ydym yn ei darparu ar gyfer ein holl ddisgyblion drwy'r safonau uchel o addysgu a dysgu, ymrwymiad a gwaith caled y staff a'r disgyblion.

Yn yr un modd, rydym hefyd yn ymfalchïo yn yr awyrgylch diogel a chyfeillgar o fewn yr ysgol ac fel rhan o'r gymuned. Rydym yn gwerthfawrogi ein disgyblion, ac rydym yn credu y dylai eu hamser yn yr ysgol fod yn werth chweil ac yn rhoi boddhad iddynt. Wrth ddewis anfon eich plentyn i Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, rydym yn gwbl hyderus y byddwch wedi gwneud y penderfyniad cywir. Mae Bro Ogwr wedi ei lleoli yng nghymuned Bracla ac mae i'r dwyrain o dref Pen-y-bont ar Ogwr.

[Gallwch glicio yma i weld prospectws yr ysgol lle y cewch lawer mwy o wybodaeth am yr ysgol](#)

### Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd

Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd  
Heol Betws,  
Betws,  
Pen-y-Bont ar Ogwr  
CF32 8TD

Ysgol gynradd sydd wedi ei lleoli yn Betws, Pen-y-Bont ar Ogwr, De Cymru yw [Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd](#). Rydym yn darparu addysg ddwyieithog ar gyfer Cwm Garw a Chwm Ogwr a'r cyffiniau.

Ein harwyddair yn Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd yw bod pawb yn cyfrif, a phawb yn cyflawni. Rydym yn cynnig amgylchedd hapus a gofalgwr lle gall eich plentyn deimlo'n saff a diogel. Mae'r addysg a ddarparwn yn cael ei chydweddu'n ofalus ag anghenion dysgu plant unigol; mae llais y disgybl o bwys mawr i ni. Ein nod yw darparu amgylchedd cynnes, croesawgar a hapus lle caiff disgyblion eu hannog i gyflawni eu potensial yn llawn a datblygu i fod yn ddinasyddion cyfrifol ac yn ddysgwyr gydol oes.

Rydym yn ysgol brysur a chyfeillgar, gyda llawer yn mynd ymlaen i roi profiadau i bawb. Bwriad gwefan yr ysgol yw rhoi rhagflas i chi o'r ysgol, yn ogystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni, disgyblion, a'r gymuned ehangach. Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau eich ymweliad â'n gwefan, ac y byddwch yn dod o hyd i'r wybodaeth yr ydych yn chwilio amdani. Mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol gydag unrhyw ymholiadau a fo gennych.

[Gallwch glacio yma i weld prospectws yr ysgol lle ceir llawer mwy o wybodaeth am yr ysgol](#)

## **Ysgol Cynwyd Sant**

Ysgol Cynwyd Sant,  
Pen-yr-Ysgol,  
Maesteg,  
Pen-y-bont ar Ogwr  
Cymru  
CF34 9YE

Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw sefydlu sylfeini cadarn, cynnig profiadau dilys ac annog chwilfrydedd i ddysgu mewn cymuned ddiogel, hapus a chynhwysol er mwyn galluogi ein dysgwyr i lwyddo ar hyd eu llwybr dysgu gydol oes fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, Cymru a'r byd.

Saif [Ysgol Cynwyd Sant](#) ar safle uchel uwchben tref Maesteg yng nghwm Llynfi. Rydym yn ysgol hapus, brysur, a chyfeillgar sy'n cynnig addysg ddwyieithog i blant o bob pentref o fewn y dref.

Rydym yn ymfalchïo yn yr addysg eang, gytbwys a chynhwysol yr ydym yn ei darparu i'n holl ddisgyblion drwy'r safonau uchel o addysgu a dysgu, ymrwymiad a gwaith caled y staff a'r disgyblion.

Ein nod yw darparu amgylchedd cynnes a gofalgwr lle mae disgyblion yn teimlo'n saff ac yn ddiogel ac yn cael eu hannog i gyflawni eu llawn botensial a datblygu'n ddinasyddion cyfrifol. Rydym yn gwerthfawrogi'n disgyblion, a chredwn y dylai eu hamser yn yr ysgol fod yn werth chweil ac yn rhoi boddhad iddynt.

Bwriad y wefan yw rhoi cipolwg i chi ar yr ysgol, yn ogystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i rieni a disgyblion. Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau eich ymweliad â'n gwefan ac y byddwch yn dod o hyd i'r holl wybodaeth berthnasol gan gynnwys ein Prospectws lle mae gwybodaeth ychwanegol a manwl am yr ysgol.

<https://www.ysgolcynwydsant.co.uk>

Os bydd arnoch angen unrhyw gymorth pellach neu os bydd arnoch eisiau trefnu ymweliad â'r ysgol, mae croeso i chi gysylltu â ni yn uniongyrchol gydag unrhyw ymholiadau a fo gennych.

[admin@cynwydsant.pen-y-bont.cymru](mailto:admin@cynwydsant.pen-y-bont.cymru)

Rydym yn ymfalchïo mewn hyrwyddo ymdeimlad cryf o gymuned ac rydym bob amser yn flaenllaw ac yn gefnogol i unrhyw fentrau lleol.

## **Ysgol y Ferch o'r Sgêr**

Ysgol Y Ferch o'r Sgêr  
Teras Greenfield,  
Gogledd Corneli,  
Pen-y-bont ar Ogwr  
De Cymru.  
CF33 4LW.

Ar hyn o bryd mae gan [Ysgol Y Ferch o'r Sgêr](#) tua 160 o ddysgwyr yn yr ysgol, mewn chwe dosbarth. Mae gennym neuadd ysgol, ystafell gyfrifiaduron, llyfrgell, dwy iard chwarae, a chaeau chwarae, coetir, gerddi, ac AstroTurf. Mae Ysgol y Ferch o'r Sgêr yn rhannu ein safle gydag Ysgol Gynradd Corneli a Chanolfan Blant Integredig Corneli.

[Gallwch glicio yma i weld prospectws yr ysgol lle ceir llawer mwy o wybodaeth am yr ysgol](#)

## **Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd**

Llangynwyd,  
Maesteg  
CF34 9RW

Mae [Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd](#) yn ysgol gyfrwng Gymraeg ddynodedig ar gyfer bechgyn a merched 11 i 19 oed a gynhelir gan Awdurdod Unedol Pen-y-bont ar Ogwr. Hon yw'r unig ysgol uwchradd gyfrwng Gymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r ysgol wedi ei lleoli ym mhentref hanesyddol Llangynwyd yng Nghwm Llynfi ychydig y tu allan i Faesteg ac mae'n gwasanaethu Pen-y-bont ar Ogwr i gyd.

Mae Ysgol Llangynwyd yn gwasanaethu dalgyllch eang, sy'n cynnwys ardaloedd trefol (Maesteg a Phorthcawl) ac ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn gymdeithasol a than anfantais yn economaidd. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o bob gallu. Agorodd yr ysgol ym mis Medi 2008 gyda 128 ym mlwyddyn 7. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2020-2021, roedd tua 660 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mlynnyddoedd 7 i 13.

[Gallwch glicio yma i weld prospectws yr ysgol lle ceir llawer mwy o wybodaeth am yr ysgol](#)

## **Gwneud cais am le mewn ysgol –**

Mae'n hanfodol bod eich ysgol gyfrwng Cymraeg dewis cyntaf yn cael ei dethol ar y ffurflen gais derbyn a'i chyflwyno erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig. Mae hefyd yn bwysig dethol ysgol ail ddewis.

Os bydd rhiant/gofalwr yn penderfynu peidio â dethol ysgol ail ddewis, ni fydd hyn yn cynyddu'r gobaith i'w plentyn gael ei dderbyn i ysgol ei ddewis cyntaf.

Ni all yr awdurdod lleol drefnu bod lle ar gael mewn ysgol benodol os nad oes digon o leoedd yno, hyd yn oed os ydych yn byw yn y 'dalgyrch' lleol.

Rhaid gwneud ceisiadau am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Nid yw ceisiadau yn awtomatig ac ni ellir eu cyflwyno i ysgolion unigol.

## **Derbyniadau i feithrinfa**

Nid yw'r amserlen ar gyfer derbyniadau i feithrinfa yn dod o dan y Cod Derbyniadau Ysgol (2013)

[Am amserlen eleni ar gyfer dyddiadau derbyn i'r feithrinfa ewch i wefan BCBC, os gwelwch yn dda](#)

## **Derbyniadau i ysgolion babanod, iau a chynradd**

[Am amserlen eleni ar gyfer dyddiadau derbyn i ysgolion babanod, iau a chynradd ewch i wefan BCBC, os gwelwch yn dda](#)

## **Derbyniadau i ysgolion uwchradd**

[Am amserlen eleni ar gyfer dyddiadau derbyn i ysgolion uwchradd ewch i wefan BCBC, os gwelwch yn dda](#)

## **Gwneud cais ar-lein**

Dylech wneud cais am le ysgol i'ch plentyn ar-lein pan fydd y ceisiadau'n agor.

Llofnodwch ar gyfer Fy Nghyfrif heddiw neu mewngofnodwch i gael mynediad, cwblhau a chyflwyno eich ffurflen gais.

[https://bridgend-self.achieveservice.com/ssauth/register?return\\_url=https%3A%2F%2Fbridgend-self.achieveservice.com%2Fen&lang=en](https://bridgend-self.achieveservice.com/ssauth/register?return_url=https%3A%2F%2Fbridgend-self.achieveservice.com%2Fen&lang=en)

[Arbedwch amser. Gwnewch gais ar-lein.](#)

Ac yn olaf .....



Mae yna lawer o gyrff a chymdeithasau yn gweithio yn yr ardal sy'n trefnu gweithgareddau a digwyddiadau ar gyfer plant ac oedolion drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dyma fanylion ychydig ohonynt

Os byddwch yn dymuno rhoi cynnig ar un neu ddim ond eisiau dod i wybod mwy, yna dewch i gysylltiad.

## **Cymraeg i Oedolion**

Ceir cyrsiau Cymraeg i oedolion ar bob lefel, ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, - dewis o gyrsiau byr neu hir, yn ystod y dydd a gyda'r nos, ac amrywiaeth o weithgareddau i'ch galluogi i ymarfer eich Cymraeg.

Ble bynnag yr ydych ar eich taith tuag at fod yn rhugl, gadewch inni eich helpu ar eich ffordd.

Cliciwch yma i gael gwybod mwy:

<https://learnwelsh.cymru/about-us/providers/swansea-university/?gclid=EAlaIQobChMlq-z2ysuS8wIV2O3tCh1NuAhDEAAYASAAEgIMwfD BwE>

## **Rhieni dros Addysg Gyfrwng Cymraeg RHaG**

Mae'r grŵp yn bodoli i gefnogi a hyrwyddo addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ledled Cymru. Mae'n sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r rhai sy'n dymuno i'w plant gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

<https://www.facebook.com/RhagPenybont/>

## **Cymraeg i blant**

Mae Cymraeg i blant yn brosiect a reolir gan y Mudiad Meithrin sy'n canolbwyntio ar gynyddu nifer y plant oed meithrin sy'n medru siarad Cymraeg. Mae'n rhannu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i rieni ynghylch manteision bod yn ddwyieithog, pwysigrwydd cyflwyno'r Gymraeg i blant mor gynnar â phosibl a manteision dewis addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg. Mae amrywiaeth o grwpiau cymorth yn cael eu cynnal yn lleol megis tyllino babanod, yoga babanod, sesiynau amser Stori Cymraeg a digwyddiadau teuluol i'w gwneud yn ymwybodol o'r daith ddwyieithog sydd ar gael iddynt ac i'w plentyn.

Cliciwch yma i gael gwybod mwy:

[www.facebook.com/cymraegiblantpenybont/](http://www.facebook.com/cymraegiblantpenybont/)

## Y Mudiad Meithrin

Y Mudiad Meithrin yw prif ddarparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector gwirfoddol. Y nod yw rhoi'r cyfle i bob plentyn bach yng Nghymru elwa o brofiadau gofal ac addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Cylchoedd Ti a Fi (rhiant a phlentyn) a meithrinfeydd dydd yn cynnig gweithgareddau i blant o'u genedigaeth tra mae Cylchoedd Meithrin yn croesawu plant o ddwy flwydd oed hyd at oed ysgol.

Mae'r wefan yn cynnig gwybodaeth am yr amrywiaeth o gyfleoedd Cymraeg sydd ar gael, o gyflwyno'r Gymraeg i'r teulu a dod o hyd i weithgareddau yn Gymraeg i blant a phobl ifanc yn eu harddegau, i fanteision defnyddio'r iaith yn y gweithle. Mae'n cynnwys darganfyddwr Digwyddiadau Cymraeg Cymru gyfan, nodweddd Ap Cymraeg yr wythnos, a chwiliwr cyrsiau sy'n rhestru'r holl gyrsiau Cymraeg i Oedolion.

Mae'r wefan hefyd yn gweithredu fel porth sy'n cysylltu â gwefannau eraill sy'n cynnig gwasanaethau Cymraeg yn ogystal ag adnoddau digidol yn Gymraeg.

## Yr Urdd

Mae'r Urdd yn un o fudiadau ieuencid mwyaf Ewrop sy'n cynnig cyfleoedd a gweithgareddau er mwyn i blant a phobl ifanc gael byw eu bywydau yn llawn yn y Gymraeg. Mae'r Urdd yn fudiad cyffrous, deinamig gyda thros 50,000 o aelodau rhwng 8 a 25 mlwydd oed. Mae adran chwaraeon yr Urdd yn cynnig ystod eang o gyfleoedd, er enghraifft, clybiau a gweithgareddau, chwaraeon wythnosol a gwyliau, yn ogystal â sesiynau i'r teulu. Cliciwch yma i ddarganfod mwy: [www.urdd.cymru](http://www.urdd.cymru)

## Menter Bro Ogwr

Menter Bro Ogwr yw menter Gymraeg Pen-y-bont ar Ogwr, a'i phrif nod yw darparu cyfleoedd i blant, pobl ifanc ac oedolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol y tu allan i oriau ysgol ac oriau gwaith, yn ogystal â meithrin hyder a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg newydd. Mae ein gweithgareddau'n cynnwys Gŵyl Ogi Ogi Ogwr, darpariaeth gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol, clybiau wythnosol i ddisgyblion cynradd ac uwchradd, cyfleoedd i wirfoddoli, gweithgareddau teuluol, a chyrsgiau hamdden i oedolion, grwpiau sgwrsio anffurfiol i rai sy'n dysgu Cymraeg a digwyddiadau tymhorol ac achlysurol.

Cliciwch yma i gael gwybod mwy: <http://www.menterbroogwr.cymru>

## Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Sefydlwyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011.

<https://www.colegcymraeg.ac.uk/en/>

Ers ei sefydlu, mae'r Coleg yn cynllunio ac yn cefnogi darpariaeth Addysg Uwch gyfrwng Cymraeg mewn modd strategol ar draws prifysgolion Cymru. Gallwch gael gwybodaeth am gyfleoedd dilyniant ac ysgoloriaethau i blant sydd wedi derbyn addysg gyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer symud ymlaen i addysg bellach, prentisiaethau ac addysg uwch.

Nod y Coleg yw gweithio gyda darparwyr i sicrhau a datblygu mwy o gyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr, myfyrwyr, a phrentisiaid yng Nghymru.



taflen-rhieni-(20).pdf

Atodiad yn cynnwys gwybodaeth am astudio 1